Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llanfairpwll

Ysgol Llanfairpwll
Llanfairpwll
LL61 5TX

Dyddiad yr arolygiad:  Ionawr 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Llanfairpwll

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llanfairpwll |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Meithrin Llanfairpwll |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Danielle Phipps |
| Person â gofal | Bethan Roberts ac Elen Edwards |
| Nifer y lleoedd | 44 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 40 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 19 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8:50 y.b. - 3:00 y.h. dydd Llun i ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Hwn yw'r arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth ers cofrestru ar 29 Ebrill 2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 20 Chwefror 2019 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 28/01/2025 |
| Mae nifer fawr o'r plant yn dod o deuluoedd lle nad Cymraeg yw iaith cyntaf y cartref. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1. Sicrhau bod trefniadau grwpio'r plant yn galluogi pob plentyn i gymryd rhan weithredol ym mhob gweithgaredd.

A2. Defnyddio arsylwadau ac asesiadau yn fwy effeithiol i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol.

A3. Gwella ansawdd adnoddau i hyrwyddo profiadau dysgu a chwarae'r plant.

A4. Sicrhau bod arweinwyr yn monitro cyllid y lleoliad yn drylwyr.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae bron pob plentyn yn hapus ac yn fodlon yn y lleoliad. Maent yn ymgartrefu ac ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni ar ddechrau sesiynau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain yn llwyddiannus ac yn dewis sut maent yn treulio'u hamser yn effeithiol. Maent yn symud o gwmpas yr ardaloedd dysgu yn rhwydd a hyderus. Mae hyn yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau ac i gymryd rhan mewn profiadau dysgu a chwarae yn eu hamser eu hunain yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn hyderus wrth rannu syniadau ac ateb cwestiynau syml. Maent yn awyddus i rannu eu profiadau gydag ymarferwyr gan wybod y byddant yn gwerthfawrogi'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud. O ganlyniad, mae bron pob un yn datblygu perthynas gadarnhaol gyda'r ymarferwyr, sy'n caniatau iddynt ymdopi dda gyda phrofiadau newydd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn dda i ganmoliaeth, gyda llawer yn dangos balchder tuag at eu gwaith ac yn awyddus i rannu eu llwyddiannau. Er enghraifft, maent yn awyddus i ddangos eu gwaith celf ac yn ymfalchïo wrth dderbyn canmoliaeth am eu hymdrechion. Mae bron pob un plentyn yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio'n aeddfed gyda'r gweithdrefnau, fel gosod eu lluniau yn y man priodol wrth hunan gofrestru.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cymdeithasu'n fodlon ac yn barod i rannu teganau ac adnoddau. Maent yn cymryd eu tro gyda'u ffrindiau yn synhwyrol. Er enghraifft, maent yn hapus i gymryd tro a chydweithio wrth chwarae yn y twba dŵr. Maent yn sgwrsio'n hapus, yn helpu ei gilydd i lenwi'r jygiau gyda dŵr ac yn cymryd tro i arllwys y dŵr i lawr y llethr. Yn ystod amser byrbryd ac amser cinio, mae plant yn cymdeithasu gyda'i gilydd yn naturiol ac yn hapus wrth sgwrsio gyda ffrindiau ac ymarferwyr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n ddiwyd wrth fynd i'r afael â thasgau ac yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau chwarae yn y gegin fwd ac yn esgus gwneud paned trwy ddefnyddio dŵr, gliter a darnau o flodau a dail. Maent yn dyfalbarhau a chanolbwyntio'n dda wrth dorri darnau oddi ar y blodau gyda siswrn i ychwanegu at y tê. Mae bron pob plentyn yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas ac yn mwynhau chwarae a defnyddio eu dychymyg. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn arbrofi gyda'r brigau, moch coed a dail tra'n ymchwilio a chreu siapiau yn y cafn tywod.

Mae bron pob plentyn yn dewis gweithgareddau yn ôl eu diddordebau ac yn datblygu medrau annibynnol da. Er enghraifft, maent yn gwisgo ffedogau, casglu brwsys ac arllwys paent drostynt eu hunain. Yn ogystal, yn ystod amser byrbryd, mae bron pob plentyn yn

awyddus i olchi dwylo, arllwys diod a didoli grawnfwyd a ffrwythau i'w platiau yn gwbl annibynnol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn chwarae gyda'i gilydd yn synhwyrol ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn cymhwyso'u medrau llafar a chymdeithasol yn effeithiol, sy'n arwain yn dda at wella eu deilliannau a'u medrau ehangach.

Mae llawer o blant yn ymdrechu i ddefnyddio'r Gymraeg yn annibynnol, trwy ddilyn anogaeth ac arweiniad deallus yr ymarferwyr. Maent yn mwynhau ymuno â rhigymau cyfarwydd a'u cyd-ganu yn ystod eu sesiynau cylch ac wrth olchi dwylo. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n ofalus ac yn gweithredu arnynt yn brydlon, er enghraifft, wrth greu cymeriadau allan o frigau. Maent yn siarad yn naturiol â'i gilydd wrth ymgymryd â chyfnodau o chwarae creadigol estynedig. Maent yn ymateb i drafodaethau ac yn rhannu syniadau i gwblhau tasgau yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cydweithio i gydbwyso toes mewn clorian yn effeithiol.

Mae llawer o blant yn trafod llyfrau'n hyderus. Maent yn ymgysylltu'n fodlon â storïau ac yn ymateb yn frwd i'w cyfoedion wrth fwynhau lluniau a digwyddiadau mewn stori. Maent yn dangos diddordeb wrth ddisgrifio cymeriadau gwahanol ac yn ystyried canlyniadau gweithredoedd yn feddylgar, er enghraifft, wrth ymateb yn ddeallus i helyntion cyw ar ddiwrnod siopa.

Yn ystod eu chwarae, mae llawer yn gwneud marciau'n fwriadus gyda chyfryngau gwahanol fel paent, creonau a rholeri. Maent yn dechrau datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn cadw nodiadau'n addas mewn llyfrynnau, wrth arbrofi gyda theipiadur. O ganlyniad, mae llawer yn esbonio pwrpas eu marciau yn synhwyrol ac yn dechrau deall bod ysgrifennu yn rhan annatod o fywyd go iawn.

Mae llawer o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn cyd-destunau priodol. Mae ganddynt fedrau rhifedd da ac maent yn mwynhau arbrofi gydag ystod eang o offer mathemategol. Maent yn cyfrif yn hyderus wrth ddidoli llestri, ceir ac anifeiliaid y fferm, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o briodweddau siapiau. Yn ogystal, maent yn trafod a chymharu cyfeintiau'n ddeallus tra'n llenwi bwcedi â thywod a defnyddio jygiau dŵr i symud hwyaid i lawr y llethr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol llwyddiannus trwy yrru beiciau ar y buarth, rheoli berfâu a dringo ar gyfarpar anturus. Maent yn mwynhau cydweithio i addasu eu syniadau, er enghraifft, wrth ddefnyddio chwistrellwr i lenwi silindrau. Mae'r agweddau cadarnhaol hyn yn effeithio'n dda ar eu dysgu.

Mae llawer yn datblygu medrau digidol cynnar yn fwriadus. Maent yn manteisio ar y cyfleoedd addas sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, maent yn rhannu ffôn symudol tra'n chwarae rôl, yn gwrando'n astud wrth reoli teclynnau siarad ac yn dilyn rhaglenni iaith a rhifedd ar lechi electronig yn bwrpasol. O ganlyniad, maent yn ymgyfarwyddo'n dda a chymhwyso eu medrau digidol cynnar yn ystyrlon.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae'r holl ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelu plant ac yn rhoi gweithdrefnau cadarn yn eu lle er mwyn sicrhau bod plant yn cadw'n iach a diogel. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r arferion o'u hyfforddiant ar ddiogelu plant yn effeithiol ac yn deall eu dyletswyddau'n dda. Mae'r rhan fwyaf wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf ac maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n briodol, gan sicrhau bod rhiant yn ymwybodol o'r digwyddiad. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u cofnodi'n effeithiol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r holl ymarferwyr yn gwneud defnydd da o weithdrefnau er mwyn atal lledaenu heintiau, fel annog y plant i olchi eu dwylo ac wrth iddynt hwythau ddilyn arferion priodol wrth drin bwyd a newid cewynnau. Maent yn hyrwyddo bwyta'n iach a gweithgareddau ymarfer corff yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i fwyta ffrwythau a grawnfwydydd yn ystod amser byrbryd ac maent yn cynnig dŵr yfed iddynt trwy gydol y sesiwn. Yn ogystal, maent yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i'r plant dreulio amser tu allan yn yr awyr iach yn gyson.

Mae'r holl ymarferwyr yn ffurfio perthnasau cadarnhaol gyda'r plant. Maent yn siarad gyda'r plant yn dyner ac yn eu trin gyda gofal a pharch. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant. Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgaredd arall os ydynt yn cael trafferthion wrth rannu neu gymryd tro ac yn rhoi esboniad clir pan nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae'r ymarferwyr yn canmol y plant yn rheolaidd a dathlu eu hymdrechion yn gyson. O ganlyniad, mae'r plant yn datblygu eu hunan hyder yn fuddiol.

Mae ymarferwyr yn dilyn trefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn casglu digon o wybodaeth am hoffterau, anghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn i'r plant gychwyn mynychu'r lleoliad. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio'n effeithiol i ddarparu ar gyfer eu hanghenion unigol. Mae gweithdrefnau addas ar waith i gyfeirio plant am gymorth gan asiantaethau allanol os oes angen. Maent yn cyfathrebu'n gyson gyda rhieni trwy gyfryngau cymdeithasol a thrwy negeseuon preifat. Maent yn creu llyfrau pwrpasol i rannu

â rhieni ar ddiwedd pob blwyddyn, sy'n cynnwys ffotograffau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a rhai o'u llwyddiannau.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae dulliau addysgu synhwyrol a gofalgar yr ymarferwyr yn cymell y plant i gydweithio a dysgu'n dda, gan effeithio'n bwrpasol ar eu medrau. Mae ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu a chwarae amrywiol, sy'n galluogi'r plant i fentro a datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda. Er enghraifft, maent yn cymell y plant i drefnu siapiau yn ôl maint a lliw a gosod bwrdd yn drefnus.

Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn effeithiol yn ystod chwarae'r plant, sy'n cynnig cyfleoedd da i'r plant ystyried llwyddiant eu hymdrechion. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd ati i gymharu nodweddion ceir a lorïau a chwilio am gorrynod yng ngwesty'r chwilod. Mae ymarferwyr yn cynnal trafodaethau difyr â'r plant wrth iddynt chwarae. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn grwpio'r plant yn gwbl effeithiol ar bob achlysur. Ar adegau, mae'r plant hŷn yn tueddu rheoli gweithgareddau'n ormodol, sy'n amharu ar gyfleoedd dysgu'r plant iau.

Mae ymarferwyr yn gweithredu cwricwlwm cytbwys, sy'n ystyried diddordebau'r plant yn dda. Maent yn ymateb yn fuddiol i ddewisiadau'r plant, er enghraifft wrth adael iddynt greu cacennau gyda thoes a'u coginio yn y gegin chwarae rôl. Maent yn amrywio eu cynllunio'n addas i sicrhau bod y plant yn dysgu trwy amrywiaeth o heriau ymarferol.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llafaredd ac ysgrifennu cynnar y plant ac maent yn eu holi'n fedrus wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i'r plant drafod nodweddion cymeriadau gwahanol ac yn annog y plant i sgwrsio wrth iddynt lenwi a gwagio bwcedi â thywod. Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau rhifedd a digidol effeithiol ymysg y plant. Maent yn eu herio i adeiladu tyrau â siapiau 3D a defnyddio recordwyr llais tra'n canu a thrafod eu teimladau.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau'n briodol i gofnodi cynnydd y plant ac i addasu'r ddarpariaeth er mwyn ymateb i'w hanghenion. Er hyn, nid yw ymarferwyr bob tro'n defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon effeithiol er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn natblygiad y plant. Mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant ar lafar, mewn llyfrynnau cynnydd ac ar gyfryngau cymdeithasol preifat.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau corfforol y plant yn llwyddiannus. Maent yn eu hannog i ddringo ar gyfarpar anturus a gyrru cerbydau yn yr ardal allanol. Yn ogystal, maent yn darparu gweithgareddau creadigol buddiol, fel addurno calonnau Santes

Dwynwen. Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol.Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi a nodweddion yr ardal leol. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth yn synhwyrol trwy drafod hetiau o wledydd eraill, darllen llyfrau sy'n ymwneud â materion amlddiwylliannol a dathlu agweddau o'r Flwyddyn Newydd Tsieiniaidd.

## Yr amgylchedd: Digonol

Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar waith i wirio bod unrhyw beryglon posibl yn cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu'r peryglon posibl a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal risgiau i blant ac mae ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol priodol. Maent yn mynd i'r afael ag unrhyw beryglon sy'n cael eu canfod yn gyflym ac effeithiol, fel codi teganau oddi ar y llawr i leihau'r risg o faglu a thrwy rwystro'r plant i chwarae mewn mannau lle mae rhew ar y llawr yn yr ardal tu allan.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu a chwarae yn braf a chyfforddus gyda digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Maent yn sicrhau bod plant yn cael synnwyr o berthyn trwy arddangos esiamplau o'u gwaith a ffotograffau ar y waliau. Mae'r ystafell chwarae wedi ei threfnu'n briodol gydag amrywiaeth ddigonol o ddeunyddiau ac adnoddau naturiol, sy'n rhoi digon o gyfleoedd i blant arbrofi ac archwilio. Er enghraifft, gliter, plu a gwrthrychau gwahanol yn yr ardal chwarae clai fel bo'r plant yn medru ychwanegu rhain i'r clai. Mae ymarferwyr hefyd yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau chwarae blêr ar gael yn defnyddio tywod, dŵr, dail a brigau.

Mae arweinwyr wedi cychwyn datblygu'r ardaloedd chwarae tu allan i gynnig amrywiaeth o weithgareddau a chyfleodd pwrpasol i blant chwarae a datblygu ymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, mae cegin fwd newydd ac ardal ymchwilio wedi ei greu o frigau, gwellt a chratiau pren. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt arbrofi a chwarae rôl yn naturiol. At ei gilydd, mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod addas o adnoddau ac offer diddorol ar gael yn yr ardal tu fewn. Ar y cyfan, mae'r rhain o ansawdd dderbyniol ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae ymarferwyr yn cadw cofnod trylwyr o ba bryd mae'r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau'n cael eu glanhau. Mae hyn yn digwydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr adnoddau'n lân. Fodd bynnag, mae ychydig o'r ardaloedd chwarae yn brin o adnoddau pwrpasol er mwyn medru hyrwyddo'r dysgu'n llawn.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol

Mae arweinwyr yn newydd i'w swyddi ac mae gweledigaeth glir ganddynt ynglŷn â gwella gweithdrefnau'r lleoliad. Maent yn cydweithio'n ddiwyd i hyrwyddo gofal a chefnogi dysgu'r plant. Maent yn canolbwyntio'n gadarn ar les y plant ac yn ymdrechu i wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu eu medrau. O ganlyniad, mae eu harferion rheolaidd a'u

hagweddau cadarnhaol yn creu awyrgylch gefnogol sy'n darparu profiadau buddiol i'r plant.

Mae arweinwyr yn darparu gofal tyner a bugeiliol i'r plant, sy'n creu ymdeimlad o gydweithio synhwyrol ymysg yr ymarferwyr a'r plant. Mae'r athroniaeth ofalgar hon yn cymell y plant i wneud eu gorau a dyfalbarhau wrth chwarae a dysgu. Yn ogystal, mae arweinwyr yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'r rhieni a gofalwyr am ddatblygiad a chyflawniad eu plant.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n gydwybodol fel tîm ac yn sicrhau bod pawb yn mynychu hyfforddiant defnyddiol i wella'u haddysgu a'u systemau gofal. Mae arweinwyr yn sicrhau bod dogfennau statudol, polisïau a gweithdrefnau y lleoliad yn cael eu hadnewyddu yn unol â'r gofynion. Mae'r Datganiad o Ddiben yn gywir ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth yn effeithiol.  Maent yn sicrhau bod y prosesau ar gyfer goruchwylio, gwerthuso ac arfarnu gwaith a datblygiad yr holl ymarferwyr yn cael eu gwethredu'n addas.

Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar gyflwyno gwelliannau cyson er mwyn datblygu arferion y lleoliad ymhellach. Maent yn dilyn prosesau recriwtio diogel ac yn dyrannu'r adnoddau sydd ar gael yn addas. Er mai yn ddiweddar mae aelodau'rpwyllgor rheoli wedi cymryd at eu rolau, maent eisoes yn cynnal gweithdrefnau hunanwerthuso synhwyrol, sy'n arwain at dargedau defnyddiol ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, maent yn adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion sydd angen sylw yn dda. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n bwrpasol ar wella ymwybyddiaeth y pwyllgor rheoli o weithgareddau'r lleoliad a datblygu canllawiau penodol i fireinio nifer o'r ymarferion rheolaethol.

Maent yn defnyddio'r gyllideb, sydd ar gael iddynt, yn foddhaol ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn monitro ac yn archwilio materion ariannol yn ddigon trylwyr er mwyn sicrhau bod amrediad digon effeithiol o adnoddau ar gael i hyrwyddo profiadau'r plant yn llawn.

Mae arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farn pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau buddiol â'r holl rhanddeiliaid i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant, ac yn gweithredu ar awgrymiadau swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Yn sgîl hyn, maent yn llwyddo i ddefnyddio'r wybodaeth i ddarparu profiadau amrywiol i blant i ddatblygu eu medrau llafar yn y Gymraeg ac i wella'r cynllunio a phrofiadau'r plant.

Mae gan yr arweinwyr berthynas lwyddiannus â'r ysgol ac mae hyn yn paratoi'r plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn fwriadus. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o'u cynefin yn dda, ac maent yn defnyddio'r ardal gyfagos yn bwrpasol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr a'r plant yn ymweld â thŵr y pentref, cartref yr

henoed a’r siop leol ac yn gwahodd swyddogion ailgylchu i’r lleoliad i gyfoethogi dysgu’r plant.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol.**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/04/2025